# CDLl2

# Ceredigion

## Cynllun Datblygu Lleol Newydd

## 2018 - 2033

## Papur Pwnc: Gwastraff

## Diweddariad ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir

## 2019

Draft

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat arall, fel print bras neu gefndir lliw, cysylltwch â'r tîm Polisi Cynllunio drwy e-bost [ldp@ceredigion.gov.uk](mailto:ldp@ceredigion.gov.uk) neu dros y ffôn 01545 572123**

Drafft

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 1
2. Cefndir 1
3. Tabl Diweddaru 3
4. Cyd-destun y Polisi Cynllunio 18
5. Y Cyd-destun Lleol 31
6. Polisïau CDLl2 34


Draft

**Nodyn i'r Darllenydd**

Cyhoeddwyd y Papurau Pwnc Diweddaru ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Adnau yr un pryd (Rhagfyr 2010) ac maent yn dal i fod ar gael ar wefan y Cyngor neu ar ffurf copi papur ar gais.

Prif bwrpas y Papur Pwnc Diweddaru hwn yw dangos, ers i'r CDLl Adnau gael ei gyhoeddi ac i'r CDLl gael ei fabwysiadu wedi hynny yn Ebrill 2013, a fu unrhyw newidiadau yn y cyfarwyddyd, strategaethau neu bolisïau perthnasol, gwybodaeth a thystiolaeth, neu faterion sydd wedi dod i'r amlwg trwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol neu apeliadau, sy'n awgrymu bod y materion a gafodd sylw yn y CDLl mabwysiedig wedi newid, neu nid ydynt yn cael eu trin yn llawn gan y polisïau.

Bydd pob papur pwnc yn darparu tabl cryno o unrhyw faterion sydd wedi codi ers y Cynllun Adnau, ac a yw'r rhain yn golygu bod angen cynnal ymchwiliad pellach i weld a oes angen gwneud newidiadau fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl, neu esboniad pellach ynghylch pam nad oes angen gwneud newidiadau. Os oes angen cael trafodaethau pellach caiff hyn ei gynnwys o fewn y papur diweddaru.

Draft

# 1. Cyflwyniad

1.1.1 Trafododd y Papur Pwnc Gwastraff (Rhagfyr 2011) sut y mae gwastraff yn nod polisi cyhoeddus allweddol i gyflawni cynaliadwyedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd, a sut y gellir sicrhau hyn trwy'r CDLl. Ystyriodd y cyfyngiadau polisi, cyfarwyddyd ac arferion gorau sy'n cyfyngu ar ystyriaethau'r CDLl.

1.1.2 Ym marn y Cynulliad, mae gwastraff yn un o'r problemau amgylcheddol pwysicaf a mwyaf heriol a wynebir gan gymdeithas heddiw. Mae wedi ymrwymo i wneud Cymru yn fodel ar gyfer rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy, gyda'r nod hirdymor o Gymru yn gymdeithas ddiwastraff. Bydd hyn yn gofyn am ymrwymiad a mewnbwn gan bob sector o gymdeithas er mwyn lleihau lefel y gwastraff sy'n cyrraedd y ffrwd wastraff, a bydd yn gofyn am amrywiaeth o dechnolegau a chyfleusterau rheoli gwastraff i sicrhau bod modd delio â'r gwastraff a gynhyrchir mewn modd effeithiol yn unol â'r hierarchaeth wastraff.

# 2. Cefndir

2.1.1 Y ffrydiau gwastraff sydd gyda'i gilydd yn ffurfio gwastraff a reolir yw:

- Gwastraff a gesglir gan yr awdurdod lleol
- Gwastraff diwydiannol a masnachol
- Gwastraff adeiladu a dymchwel
- Gwastraff amaethyddol
- Gwastraff peryglus

2.1.2 Mae gwastraff a gesglir gan yr awdurdod lleol yn ffurfio'r gyfran fwyaf o'r gwastraff a gynhyrchir yng Ngheredigion. Roedd cyfanswm y gwastraff a gesglir gan yr awdurdod lleol yng Ngheredigion ar gyfer 2016-17 yn 38,115 o dunelli, a chafodd 70.1% ohono ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, ac aeth 12.25% ohono i safle tirlenwi (44.8% o'r Lwfans Tirlenwi).

2.1.3 Mae gwastraff bwyd yn cael ei gasglu ar wahân bob wythnos. Felly mae gwastraff bwyd yn cael ei drin gan dreulio anaerobig o dan gontract gydag Agrivert Ltd (wedi'i bwrcasu'n rhanbarthol gan Bartneriaeth Gwastraff Canol Cymru). Mae'r contract gydag Agrivert yn dod i ben yn 2027. Mae'r

Draft

deunyddiau yn mynd i gyfleuster treulio anaerobig rhanbarthol Agrivert yn Stormy Down, Pen-y-bont ar Ogwr.

2.1.4 **Caiff gwastraff gweddilliol ei gasglu bob pythefnos. Caiff y gwastraff gweddilliol ei drin o dan gontract gyda LAS Waste, Llanbedr Pont Steffan, ac mae'r contract yn dod i ben ym Mawrth 2022.** Mae ymgynghori'n parhau ynghylch mynd yn ôl i amserlen 3 wythnosol a chyflwyno gwasanaeth casglu gwydr. Mae opsiynau hirdymor yn cael eu harchwilio trwy drefniadau cydweithredol â'r awdurdodau lleol yn Ne Orllewin a Chanol Cymru.

2.1.5 Mae ailgylchu wrth ymyl y ffordd yn cael ei gynnig i 100% o gartrefi a chwsmeriaid masnachol. Mae deunyddiau ailgylchu sych (papur, cerdyn, caniau a phlastig) yn cael eu casglu'n wythnosol wedi'u cymysgu mewn sachau a'u didoli yng Nghyfleusterau Ailgylchu Deunyddiau MRF yn Sir Gaerfyrddin. Caiff gwastraff gerddi ei gasglu ar gais (bob bythefnos ar y mwyaf) a chodir tâl am y gwasanaeth hwn.

2.1.6 Mae pedwar safle gwastraff tŷ yn cynnig cyfleusterau ailgylchu ar gyfer ystod eang o fathau o ddeunyddiau – Cilmaenllwyd, Rhydeinon, Glan-yr-afon a Llanbedr Pont Steffan.

2.1.7 Mae'r sir yn un wledig yn bennaf heb lawer o ddiwydiant, ac felly ni cheir llawer o wastraff diwydiannol a masnachol. Ni cheir llawer o ffynonellau adeiladu, dymchwel a chloddio ychwaith, ac maent wedi'u gwasgaru dros ardal eang. Mae'r rhan fwyaf o'r gwastraff sy'n codi o adran briffyrdd yr awdurdod lleol a'r Cyngor yn gysylltiedig â chynlluniau peirianyddol yn cael ei ailgylchu a'i ailddefnyddio. Prin iawn yw'r gwastraff peryglus sy'n cael ei gynhyrchu (e.e. 1988 o dunelli yn 2016 – Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff Rhanbarth De Orllewin Cymru 2018), ac mae'r rhan fwyaf ohono yn cynnwys eitemau cartref, gan gynnwys oergelloedd, fflwrolau a setiau teledu CRT. Mae Ceredigion yn sir amaethyddol yn bennaf ond ni cheir llawer o ddata ar wastraff amaethyddol.

Draft

# 3. Tabl Diweddaru

3.1.1 Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r newidiadau sydd wedi digwydd neu faterion sydd wedi codi mewn perthynas â gwastraff. Gall y rhain fod yn newidiadau mewn/polisïau, strategaethau newydd ac ati, newidiadau mewn/tystiolaeth neu wybodaeth newydd, neu'n faterion sydd wedi codi yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol neu apeliadau.

| **Mater Adolygu/ Newid Arfaethedig** | **Ffynhonnell/ Ysgogiad** | **Dyddiad (Mis/ Blwyddyn)** | **Gweithredu** | **Sylwadau pellach** | **Angen Adolygu'r Papur Pwnc?** |
|---|---|---|---|---|---|
| Adroddiadau Monitro Blynyddol | Perfformiad Amcan Cynaliadwyedd 3a Dangosyddion yr Adroddiad Monitro Blynyddol | 2014 2015 a 2016 | Dim. | SA Amcan 3a – Cyfanswm tunelledd gwastraff trefol a pherfformiad yn ôl: Targedau Ailgylchu Awdurdodau Lleol (LART) h.y. y lefelau gofynnol i'w cyrraedd wrth baratoi ar gyfer ailddefnyddio neu ailgylchu/compostio (neu dreulio anaerobig) mewn perthynas â gwastraff trefol (fel canran). Targed wedi'i osod ar 58% ar hyn o bryd (yn codi i 64% erbyn 2019/20).<br><br>Mae'r dangosydd hwn wedi cael ei asesu yn gadarnhaol. | Na |

| Mater Adolygu/ Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogiad | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Llywodraeth Cymru | Ebrill 2015 | Dim. | Yn fyr, mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob prosiect, polisi a chynllun ystyried llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.<br>Mae'r Ddeddf yn rhoi 7 nod llesiant yn eu lle:<br>• Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang<br>• Cymru lewyrchus<br>• Cymru gydnerth<br>• Cymru iachach<br>• Cymru sy'n fwy cyfartal<br>• Cymru o gymunedau cydlynus<br>• Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br><br>Y nodau sy'n fwyaf perthnasol i wastraff yw: | Na |

Draft

| Mater Adolygu/ Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogiad | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | (i) Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd. Mae nod defnyddio adnoddau Un Blaned 2050 yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn gyson â'r nod hwn;<br>(ii) Cymru Lewyrchus – Mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn trin gwastraff fel adnodd gwerthfawr ac yn rhagweld twf economaidd trwy weithredu'r hierarchaeth wastraff, gan ddarparu twf gwyrdd o ran swyddi a chyfleoedd hyfforddi newydd yn y sector atal gwastraff, ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer ynni;<br>(iii) Cymru Gydnerth – mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn hyrwyddo mwy o effeithlonrwydd adnoddau trwy | |

Draft

| Mater Adolygu/ Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogiad | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ailddefnyddio ac ailgylchu, gan wneud Cymru yn fwy cydnerth i wynebu materion diogelwch adnoddau yn y dyfodol;<br>(iv) Cymru Iachach – Mae gwarchod yr amgylchedd ac iechyd dynol yn ganolog i Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr Undeb Ewropeaidd (2008/98/EC) ac wedi'i ymgorffori yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Mae TAN 21 Gwastraff yn cadarnhau y dylai cynllunio ar gyfer y defnydd o dir helpu i leihau effaith rheoli gwastraff ar yr amgylchedd ac iechyd dynol trwy leoliad a'r math o gyfleusterau priodol.<br><br>Mae polisïau gwastraff y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfateb â'r nodau hyn. | |

Draft

| **Mater Adolygu/ Newid Arfaethedig** | **Ffynhonnell/ Ysgogiad** | **Dyddiad (Mis/ Blwyddyn)** | **Gweithredu** | **Sylwadau pellach** | **Angen Adolygu'r Papur Pwnc?** |
|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 | Llywodraeth Cymru | Gorffennaf 2015 | Dim. | Mae'r Ddeddf yn amlinellu cyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, gan sicrhau ei bod yn deg, yn gydnerth a'i bod yn galluogi datblygu. Mae'r Ddeddf yn cael ei hategu gan newidiadau cyfredol ac arfaethedig i ddeddfwriaeth eilaidd, polisi a chyfarwyddyd. Mae'n cyfateb â Deddf Llesiant a'r Amgylchedd ac yn cysylltu sut mae'n rhaid i ni reoli'r defnydd o'n tir ochr yn ochr â rheoli adnoddau naturiol. | Na |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) | Llywodraeth Cymru | Mawrth 2016 | Dim. | Mae'r Ddeddf yn rhoi'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen yn ei lle i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig. Mae'n cynnig modd i ni:<br>• Wynebu'r heriau amgylcheddol a gyflwynir a chanolbwyntio ar y cyfleoedd a gynigir gan | Na |

Draft

| **Mater Adolygu/ Newid Arfaethedig** | **Ffynhonnell/ Ysgogiad** | **Dyddiad (Mis/ Blwyddyn)** | **Gweithredu** | **Sylwadau pellach** | **Angen Adolygu'r Papur Pwnc?** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ein hadnoddau;<br>• Sefydlu'r targedau lleihau allyriadau statudol a chyllidebu carbon i ategu eu cyflenwi;<br>• Gwella prosesau rheoli gwastraff; ac<br>• Egluro'r gyfraith ar gyfer trefniadau rheoleiddio amgylcheddol gan gynnwys rheoli pysgodfeydd pysgod cregyn, trwyddedu morol, rheoli'r perygl o lifogydd a draenio tir.<br><br>Mae'n cynnwys nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol newydd sy'n ceisio cynyddu ailgylchu gwastraff diwydiannol a masnachol, a fydd yn helpu i gyflawni rhai o dargedau Tuag at Ddyfodol Diwastraff ar gyfer y sectorau hyn, a gwneud cyfraniad mawr at yr economi gylchol a thwf gwyrdd.<br>Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru | |

| **Mater Adolygu/ Newid Arfaethedig** | **Ffynhonnell/ Ysgogiad** | **Dyddiad (Mis/ Blwyddyn)** | **Gweithredu** | **Sylwadau pellach** | **Angen Adolygu'r Papur Pwnc?** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ei gwneud hi'n ofynnol i gynhyrchwyr gwastraff annomestig wahanu gwastraff ailgylchadwy i'w gasglu yn ei gwneud hi'n ofynnol i gasglwyr gwastraff gasglu, rhai mathau o wastraff trwy gyfrwng casgliadau ar wahân, cyflwyno gwaharddiadau ar dirlenwi ac egni o wastraff ar gyfer deunyddiau ailgylchadwy, a gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthfosydd o safleoedd annomestig.<br><br>Mae'r rhain i gyd yn unol â Tuag at Ddyfodol Diwastraff a pholisïau gwastraff y CDLl. | |
| Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2012 | Llywodraeth y DU | 2012 | Dim. | Mae'r darn hwn o ddeddfwriaeth yn diweddaru Rheoliadau 2011 i adlewyrchu cyd-destun y polisi, amcanion a thargedau gwastraff newydd, gan egluro rôl cynlluniau datblygu a pharatoi cynlluniau o ran nodi lleoliadau addas ar gyfer y seilwaith gwastraff, | Na |

Draft

| Mater Adolygu/ Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogiad | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | lleihau gwastraff a chynyddu ailgylchu mewn adeiladau newydd, ac mae'n pwysleisio bod gwastraff yn adnodd gwerthfawr.<br><br>Mae pob un o'r rhain yn unol â'r strategaeth Tuag at Dyfodol Diwastraff a pholisïau gwastraff y CDLl. | |
| Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygiad) (Cymru) (Rhif 2) 2012 | Llywodraeth Cymru | Medi 2012 | Dim. | Un o'r pethau y mae'r Gorchymyn hwn yn ceisio ei wneud yw diwygio Rhannau 6 (adeiladau a gweithrediadau amaethyddol) a 7 (adeiladau a gweithrediadau coedwigaeth) o Atodlen 2 i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir er mwyn egluro bod hawliau datblygu a ganiateir yn gymwys i adeiladau ar dir amaethyddol neu goedwigaeth i storio offer microgynhyrchu, ac arbennig i storio hydro-dyrbinau, boeleri biomas a systemau treulio anaerobig, a storio tanwydd a | Na |

Draft

| Mater Adolygu/ Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogiad | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gwastraff cysylltiedig ar yr amod bod y tanwydd neu'r gwastraff yn cael eu cynhyrchu ar y tir amaethyddol neu goedwigaeth neu gan y boeler neu'r system.<br><br>O ganlyniad i'r diwygiad hwn, ceir amgylchiadau bellach pan gall cyfleusterau treulio anaerobig ar raddfa fferm gael eu codi ar dir amaethyddol i wasanaethu'r fferm o dan y weithdrefn Penderfynu h.y. heb yr angen i gyflwyno cais cynllunio llawn.<br><br>Gall cyfleusterau treulio anaerobig wneud cyfraniad arwyddocaol at symud rheoli gwastraff fferm i fyny'r hierarchaeth wastraff yn unol â Thuag at Ddyfodol Diwastraff. | |
| Polisi Cynllunio Cymru | Llywodraeth Cymru | 2018 | Dim. | Nid yw wedi cyflwyno unrhyw newid arwyddocaol i bolisi Llywodraeth Cymru o ran rheoli gwastraff. | Na |

Draft

Draft

| Mater Adolygu/ Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogiad | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| Argraffiad 10 | | | | | |
| Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21: Gwastraff | Llywodraeth Cymru | 2014 | Dim. | Mae'r TAN hwn yn disodli TAN 21 Gwastraff (2001). Mae'n rhoi arweiniad ar rôl cynllunio o ran defnydd tir wrth reoli gwastraff, yn esbonio'r rhyngweithiadau rhwng y strategaeth wastraff genedlaethol, Cynllun Sector Seilweithiau a Marchnadoedd a pholisi cynllunio cenedlaethol, ac mae'n rhoi cyngor ar y fframwaith a'r egwyddorion ar gyfer rheoli gwastraff yn y system gynllunio, cynllunio strategol ar gyfer gwastraff, asesiadau cynllunio gwastraff ac ystyriaethau cynllunio manwl yn y broses hon.<br><br>Mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r tri rhanbarth yng Nghymru (Gogledd, De Ddwyrain a'r De Orllewin – sy'n cynnwys Ceredigion) baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer gwastraff er mwyn | Na |

| Mater Adolygu/ Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogiad | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | monitro gwastraff y rhanbarth, ei adennill a'i waredu, ac er mwyn gwneud rhagolygon ar gyfer gwastraff yn y dyfodol. Gellir ei ddefnyddio fel tystiolaeth i gefnogi cynlluniau datblygu a phenderfyniadau cynllunio.<br><br>Mae hefyd yn cyflwyno gofyniad i gynnal lleiafswm o gapasiti tirlenwi ym mhob rhanbarth (Gogledd, De Orllewin a De Ddwyrain) sy'n berthynol i'r trothwy. Y trothwy yw argaeledd gwagle tirlenwi o fwy na 7 mlynedd ar y cyfraddau tipio presennol. Bydd cyrraedd y trothwy yn arwain at chwiliad safle a phroses ddethol ar gyfer y rhanbarth er mwyn nodi lleoliadau addas ar gyfer tirlenwi.<br><br>Mae'r fersiwn newydd o TAN Gwastraff yn golygu ei fod yn unol â'r Strategaeth Wastraff Genedlaethol y mae'r CDLl eisoes yn cyfateb yn agos iddi. Mae | |

Draft

| **Mater Adolygu/ Newid Arfaethedig** | **Ffynhonnell/ Ysgogiad** | **Dyddiad (Mis/ Blwyddyn)** | **Gweithredu** | **Sylwadau pellach** | **Angen Adolygu'r Papur Pwnc?** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi cymryd cyfrifoldeb am gynhyrchu'r adroddiadau monitro ar gyfer rhanbarth De Orllewin Cymru. Mae adroddiad interim wedi cael ei gynhyrchu sy'n pontio'r bwlch ers cyhoeddi'r Adolygiad Cyntaf o'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol 2008, ac mae Adroddiad Monitro Blynyddol wedi cael ei gynhyrchu ar gyfer 2017. Nid yw unrhyw beth yn TAN 21 Gwastraff (2014) yn groes i bolisïau'r CDLl ar wastraff. | |
| TAN12: Dylunio: | Llywodraeth Cymru | Mawrth 2016 | Dim. | Mae'n berthnasol i wastraff oherwydd mae'n nodi ymysg pethau eraill bod dyluniad da yn golygu creu'r gwastraff lleiaf posibl, yn cynnwys datrysiadau dylunio sy'n sicrhau'r gwastraff lleiaf posibl, a sut y caiff ei drin yn ystod ac ar ôl adeiladu (ailddefnyddio a gwaredu), gan gynnwys darparu cyfleusterau priodol ar gyfer didoli, storio ac ailgylchu gwastraff | Na |

Draft

| Mater Adolygu/ Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogiad | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | mewn adeiladau a mabwysiadu prosesau adeiladu sy'n osgoi neu'n lleihau gwastraff.<br><br>Mae'r CDLl yn cyfateb â hyn. | |
| Cynllun Sector Adeiladu a Dymchwel Tuag at Ddyfodol Diwastraff | Llywodraeth Cymru | Tachwedd 2012 | Dim. | Mae'r Cynllun Sector Adeiladu a Dymchwel yn cwmpasu'r holl wastraff a gynhyrchir yn ystod prosiectau adeiladu, peirianneg sifil a dymchwel ac mae ceisio atal a lleihau gwastraff a chynyddu ailgylchu gan fusnesau yn y sector hwn.<br>Mae'n ffurfio rhan o strategaeth gyffredinol i leihau gwastraff a rheoli unrhyw wastraff sy'n codi yn unol â'r hierarchaeth wastraff y mae'r CDLl eisoes yn cyfateb â hi. | Na |
| Cynllun Sector Diwydiannol a Masnachol | Llywodraeth Cymru | Rhagfyr 2013 | Dim. | Mae'r Cynllun Sector Diwydiannol a Masnachol yn canolbwyntio ar y gwastraff masnachol sy'n deillio o unrhyw safleoedd a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n | Na |

Draft

| Mater Adolygu/ Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogiad | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| Tuag at Ddyfodol Diwastraff | | | | bennaf ar gyfer masnach, busnes, chwaraeon, adloniant neu ddifyrrwch (ac eithrio cartrefi), a gwastraff diwydiannol sy'n codi o unrhyw ffatri ac unrhyw safleoedd a feddiannir gan ddiwydiant (ac eithrio mwyngloddiau a chwareli).<br><br>Mae'n ffurfio rhan o strategaeth gyffredinol i leihau gwastraff a rheoli unrhyw wastraff sy'n codi yn unol â'r hierarchaeth wastraff y mae'r CDLl eisoes yn cyfateb â hi. | |
| Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff 2018 Rhanbarth De Orllewin Cymru | Adroddiadau Monitro Gwastraff Rhanbarthol (fel sy'n ofynnol gan TAN 21: | Mawrth 2018 | Dim. | Mae'n cwmpasu'r cyfnod 2016/17. Mae gwybodaeth am gyfleusterau rheoli gwastraff / adfer adnoddau y rhanbarth yn ofynnol er mwyn monitro gweithredu Tuag at Ddyfodol Diwastraff 2010, o ran y cyfleusterau a gynllunnir yng nghynllluniau datblygu'r awdurdod lleol a hefyd o ran y cyfleusterau sy'n | Na |

Draft

| Mater Adolygu/ Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogiad | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwastraff) | | | gweithredu ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r adroddiad yn nodi bod Ceredigion eisoes yn cyflawni ei darged ailgylchu a chompostio o 70% a osodwyd ar gyfer 2024/25, ac yn defnyddio oddeutu 45% o'i Lwfans Tirlenwi yn unig.<br><br>Mae contractau gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol yn eu lle.<br><br>Mae'r adroddiad yn nodi nad oes angen y safle a neilltuwyd yng Nglan-yr-afon mwyach fel cyfleuster graddfa ranbarthol posibl. | |

Draft

# 4. Cyd-destun y Polisi Cynllunio

## Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10 – Rhagfyr 2018

4.1.1 Un o Ganlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru 10 yw gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol ac atal gwastraff.

4.1.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru 10 yn datgan bod dyluniad da yn hybu cynaliadwyedd amgylcheddol ac yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant. Mae'n annog, ymysg pethau eraill, y defnydd effeithlon o adnoddau eraill ac atal cynhyrchu gwastraff a llygredd.

4.1.3 Bydd hyrwyddo'r dewis gorau o ddeunyddiau ac effeithlonrwydd defnydd yn mynd law yn llaw yn aml. Bydd defnyddio llai o adnoddau yn y lle cyntaf yn helpu i osgoi creu gwastraff na ellir ei ailddefnyddio'n effeithiol, ac mae atal gwastraff yn allweddol i'r defnydd effeithlon o adnoddau naturiol.

4.1.4 Mae Polisi Cynllunio Cymru 10 yn hybu cyfleoedd i leihau neu ailgylchu gwastraff fel rhan o ddylunio, adeiladu a gweithredu adeiladau newydd sydd i'w nodi pan gynigir cynllun, strategaethau a pholisïau, gan gynnwys unrhyw ddyraniadau penodol, ac ar gam cynnar wrth ddylunio cynigion datblygu.

4.1.5 Bydd deall a nodi nodweddion penodol economi gylchol (gan ddefnyddio adnoddau cyhyd â phosibl) â chyn belled ag y bo hyn yn ymwneud â chynllunio, yn cynnwys ystyried y canlynol yn gynnar yn y broses o baratoi cynlluniau datblygu ac wrth lunio cynigion datblygu:

- hyrwyddo defnydd o adeiladau sy'n bodoli lle bynnag y bo'n bosibl;
- dylunio i osgoi gwastraff trwy ddefnyddio deunyddiau sydd wedi neu y gellir eu hailweithgynhyrchu, eu hailwampio, eu hailgydosod a'u hailgylchu neu y gellir eu dadadeiladu a'u hailddefnyddio;
- dylunio i osgoi gwastraff trwy ddewis a thrin safleoedd priodol;
- hybu dull mwy hyblyg a pharhaol wrth ddylunio adeiladau, gan ddefnyddio dewisiadau dylunio sy'n golygu y gellir addasu adeiladau yn ystod eu hoes (yn ogystal ag ar ddiwedd eu hoes);
- cynnwys deunyddiau ac elfennau wedi'u hailddefnyddio yn y dyluniad, er enghraifft deunyddiau wedi'u hailgylchu a deunyddiau eilaidd;

Draft

- cydnabod synergeddau a'r manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol lluosog a gynigir trwy ddewis deunyddiau priodol.

4.1.6 Mae Polisi Cynllunio Cymru 10 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio ystyried dewisiadau dylunio a dewis a thrin safleoedd fel rhan o asesu cynigion datblygu, a hybu newid tuag at ymgorffori cylcholrwydd yn llif deunyddiau. Mae mesurau sy'n atal gwastraff rhag codi yn cynnwys lleihau swm y gwastraff a gynhyrchir, ailddefnyddio cynhyrchion, estyn oes cynhyrchion ac ystyried sut y gellir cynnwys deunyddiau o fewn safle yn y datblygiad newydd. Os yw gwastraff yn cael ei gynhyrchu dylid ei gadw ar wahân i'w ailddefnyddio neu ei ailgylchu. Dylid ystyried pob cyfle i gynnwys deunyddiau neu gynhyrchion wedi'u hailddefnyddio neu eu hailgylchu mewn adeiladau neu adeileddau newydd.

4.1.7 Wrth gwrs, mae angen graddfa o weithrediadau peirianyddol torri a llenwi ar safleoedd adeiladu. Mae cadw lefel meintiau torri a llenwi cloddwaith i'r lleiaf posibl nid yn unig yn lleihau gwastraff ond hefyd yn gwarchod priddoedd, yn lleihau'r defnydd o ynni ac yn lleihau symudiadau cerbydau sy'n cyrraedd ac yn gadael y safle. Yn y pen draw mae hefyd yn lleihau'r deunyddiau a anfonir at safleoedd tirlenwi ac yn gwneud defnydd cynaliadwy o adnodd terfynedig. Adlewyrchir y canllawiau hyn ym mholisi LU32 y CDLl y mae'r Cyngor yn cynnig ei ddwyn ymlaen i CDLl2 gyda rhai diwygiadau.

4.1.8 Mae Polisi Cynllunio Cymru 10 yn datgan fel rhan o drin safle y dylai'r cydbwysedd torri a llenwi o ddeunyddiau a gloddir gael ei asesu er mwyn osgoi creu gwastraff na ellir ei ailddefnyddio'n effeithiol. Dylai datblygwyr ddylunio cynigion gan sicrhau cydbwysedd cloddwaith trwy gyflwyno cynllun rheoli deunyddiau naturiol fel rhan o gynigion datblygu sy'n ceisio cadw torri a llenwi i'r lleiaf posibl neu a allai ddarparu ar gyfer adfer tir mewn man arall yn yr ardal. Cynigir diwygio polisi LU32 i adlewyrchu'r gofyniad hwn.

4.1.9 Os nad oes modd osgoi cynhyrchu gwastraff, dylid annog ailddefnyddio ac ailgylchu'r deunyddiau sydd ar gael yn lleol yn unol â'r egwyddor agosrwydd. Os yw'n briodol, dylai cynlluniau datblygu hybu ailddefnyddio ac ailgylchu

Draft

agregau eilaidd, gwastraff adeiladu, dymchwel a chloddio a deunyddiau priodol eraill a ailgylchwyd.

4.1.10 Dylai awdurdodau cynllunio hybu dulliau arloesol o ailgylchu, yn enwedig y rhai sy'n creu manteision lluosog megis lleihau costau ynni ac allyriadau cysylltiedig. Gall hyn gynnwys annog yr ymarfer o ailgylchu ar y safle ar safleoedd mwynau, ystyried yn briodol yr holl gostau a manteision tebygol, rhoi cymorth i 'chwareli trefol', ac ailgylchu gwastraff adeiladu a dymchwel ar y cyd â defnyddiau addas eraill, megis o fewn ierdydd nwyddau adeiladwyr.

4.1.11 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan bod rhaid i awdurdodau cynllunio gefnogi'r ddarpariaeth a lleoliad addas seilwaith gwastraff helaeth ac amrywiol sy'n cynnwys cyfleusterau ar gyfer adfer gwastraff trefol cymysg ac a all gynnwys cyfleusterau gwaredu ar gyfer unrhyw wastraff gweddilliol na ellir ei drin yn uwch i fyny'r hierarchaeth wastraff. Bydd penderfynu i ba raddau y mae cynnig yn dangos cyfraniad at amcanion, polisi, targedau ac asesiadau rheoli gwastraff sydd wedi'u cynnwys o fewn polisi gwastraff cenedlaethol yn ystyriaeth cynllunio bwysig.

4.1.12 Mae'r cysyniad 'Safle Priodol Agosaf' a'r egwyddor o hunanddigonedd yn gymwys mewn perthynas â'r gwastraff a gwmpasir gan Erthygl 16 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig (gwastraff trefol cymysg a gesglir gan gartrefi preifat, gan gynnwys lle mae casgliad o'r fath hefyd yn cwmpasu gwastraff gan gynhyrchwyr eraill), a dylai lywio'r ddarpariaeth o rwydwaith integredig a digonol ar gyfer trin gwastraff o'r fath. Dylai'r rhwydwaith gynnwys yr holl gyfleusterau ategol angenrheidiol, megis gorsafoedd trosglwyddo gwastraff a chyfleusterau prosesu.

4.1.13 Mae'r hierarchaeth wastraff yn darparu'r man cychwyn ar gyfer pob math o gynigion rheoli gwastraff. Fodd bynnag, dylai'r ystyriaeth o'r hierarchaeth gael ei gosod yn erbyn y ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach sy'n berthnasol mewn unrhyw achos arbennig. Dylai atal gwastraff a dulliau o hybu ailddefnyddio ac ailgylchu gael eu hystyried yn gynnar fel rhan o'r dewisiadau o ddeunyddiau a dyluniad.

Draft

4.1.14 Mae polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli gwastraff wedi'i gynnwys y mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff a chynlluniau sector cysylltiedig. Dylai awdurdodau cynllunio, mewn egwyddor, gefnogi cyfleusterau sy'n cyd-fynd â dyheadau'r dogfennau hyn, a thrwy wneud hynny adlewyrchu trefn blaenoriaeth yr hierarchaeth wastraff cyn belled â phosibl.

4.1.15 Mae'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn disgrifio'r fframwaith rheoli gwastraff sy'n darparu'r datrysiadau gorau ar gyfer diwallu anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol hyd at 2050. Mae'n nodi symudiad tuag at leihau opsiynau gwaredu ac adfer ar gyfer trin gwastraff o blaid casglu swm sylweddol o wastraff wedi'i wahanu a ac yna ailbrosesu yn ogystal â pharatoi ar gyfer ailddefnyddio ac atal.

4.1.16 Mae Polisi Cynllunio Cymru 10 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynlluniau datblygu ddangos sut y rhoddwyd sylw i'r polisi gwastraff cenedlaethol, ac yn arbennig y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd, ynghyd ag unrhyw sefyllfa wedi'i diweddaru a fabwysiadir yn yr adroddiadau monitro cynllunio gwastraff ac unrhyw fath arall o flaenoriaethau rheoli gwastraff sy'n berthnasol i'w ardal leol.

4.1.17 I gefnogi'r hierarchaeth wastraff, bydd yn bwysig bod awdurdodau cynllunio fan lleiaf yn monitro cynnydd tuag at ddarparu rhwydwaith integredig a digonol o safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd ar gyfer adfer gwastraff trefol cymysg a gwastraff tebyg gan sectorau masnachol a diwydiannol yn ogystal â chartrefi preifat. Am y rheswm hwn, mae trefniadau monitro rhanbarthol wedi cael eu rhoi yn eu lle i sicrhau bod y sefyllfa ddiweddaraf ar gael i lywio penderfyniadau. Mae Ceredigion wedi'i chynnwys o fewn Rhanbarth De Orllewin Cymru at ddibenion monitro.

4.1.18 Ar gyfer pob math o wastraff, dylai lleoliadau addas ar gyfer datblygu rheoli gwastraff cynaliadwy gael eu nodi mewn cynlluniau datblygu yn ogystal â'r meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau am ddatblygiadau o'r fath, gan gydnabod mai'r lleoliadau mwyaf priodol fydd y rhai sydd â'r effaith leiaf ar y boblogaeth leol a'r amgylchedd, ac sydd â'r potensial gorau o gyfrannu at fframwaith seilwaith eang. Efallai y bydd angen cydweithio a

Draft

gweithio ar y cyd er mwyn ymateb yn strategol i'r gofyniad a nodir fel rhan o fonitro gwastraff. Fodd bynnag, ni ddylai awdurdodau unigol eithrio darpariaeth ar gyfer gwastraff neu brosiectau posibl eraill a allai greu llygredd neu wahardd pob cais i'w sefydlu. Dylent wneud darpariaeth realistig ar gyfer mathau arbennig o ddiwydiant neu gyfleuster a allai fod yn niweidiol i amwynder neu fuddiannau cadwraeth neu fod yn ffynhonnell bosibl o lygredd. Bydd ymgysylltu effeithiol â'r diwydiant rheoli gwastraff a rheolwyr gwastraff yr awdurdod lleol a chonsortia yn rhan hanfodol o gynllunio gwastraff.

4.1.19 Fel rhan o baratoi cynllun datblygu dylai awdurdodau cynllunio hybu ailgylchu ac ailddefnyddio gwastraff adeiladu a dymchwel yn ogystal â gwastraff mwynau a diwydiannol. Dylai pob awdurdod cynllunio naill ai yn annibynnol, neu gyda'i awdurdodau cyfagos, wneud darpariaeth ar gyfer storio a phrosesu deunyddiau anweithredol sy'n codi o waith adeiladu, dymchwel a chynnal a chadw trwy nodi'r lleoliadau a ffefrir ar gyfer cyfleusterau ailgylchu mewn cynlluniau datblygu. Ar yr adegau prin pan na ellir nodi safleoedd addas mewn cynlluniau datblygu, dylid gosod meini prawf clir er mwyn asesu ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd ailgylchu. Mae polisi LU31 y CDLl yn amlinellu meini prawf perthnasol a chynigir dwyn y polisi ymlaen i CDLl2 gyda mân newidiadau yn unig.

4.1.20 Dylai cynigion sy'n ceisio paratoi ar gyfer ailddefnyddio a chyfleusterau ailddefnyddio gael eu cefnogi gan awdurdodau cynllunio, gan ystyried y ffactorau sy'n gysylltiedig a gadael a chasglu nwyddau, natur yr atgyweiriadau, cynnal a chadw a thrin, yr angen i sicrhau cludiant a hygyrchedd boddhaol ar gyfer gadael a chasglu nwyddau ac unrhyw oblygiadau posibl i'r amgylchedd ac amwynderau.

### Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, 2010

4.1.21 Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned yw strategaeth wastraff gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Mae'n rhoi manylion am ganlyniadau lefel uchel, polisïau a thargedau, ac mae'n ffurfio rhan o

Draft

gyfres o ddogfennau sydd gyda'i gilydd yn cynnwys Cynllun Rheoli Gwastraff Cenedlaethol Cymru. Mae'n amlinellu fframwaith hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff hyd at 2050, ac mae'n amlinellu'r camau y mae'n rhaid i ni gyd eu cymryd os ydym am wireddu'r uchelgais o fod yn genedl sydd â lefel uchel o ailgylchu erbyn 2025 a chenedl ddiwastraff, un blaned erbyn 2050.

4.1.22 Y canlyniadau y mae'r strategaeth yn ceisio eu cyflawni yw amgylchedd cynaliadwy, cymdeithas ffyniannus a chymdeithas deg a chyfiawn.

4.1.23 Erbyn 2025, y nod yw cael lleihad sylweddol mewn gwastraff (27% o lefelau 2007), a chaiff unrhyw wastraff a gynhyrchir ei reoli mewn ffordd sy'n gwneud y mwyaf o'n hadnoddau gwerthfawr. Mae hyn yn golygu gwneud y mwyaf o ailgylchu a sicrhau bod y swm lleiaf posibl o wastraff gweddilliol yn cael ei gynhyrchu, a chyrraedd lefel mor agos â phosibl i ddim tirlenwi. Er mwyn cyflawni nod Un Blaned ar gyfer 2050 bydd rhaid i ni leihau ein gwastraff gan oddeutu 1.5% (o waelodlin 2007) bob blwyddyn ar draws pob sector.

4.1.24 Erbyn 2025 bydd yn ofynnol i bob sector gwastraff yng Nghymru ailgylchu o leiaf 70% o'i wastraff, gydag uchafswm o 30% o'r gwastraff trefol a ddefnyddir mewn cyfleusterau troi gwastraff yn ynni ac uchafswm o 5% o wastraff trefol yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Cafodd y targedau eu hymgorffori yn y gyfraith mewn perthynas â 'gwastraff trefol' o Ebrill 2012 o dan ddarpariaethau Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

4.1.25 Bydd cyrraedd y targedau hyn hefyd yn cyflawni targedau arallgyfeirio tirlenwi yr Undeb Ewropeaidd a nodir yng Nghyfarwyddeb Tirlenwi (Cyfarwyddeb Gwastraff i Dirlenwi yr Undeb Ewropeaidd) (99/31/EC), i leihau swm y gwastraff trefol bioddiraddiadwy a anfonir i safleoedd tirlenwi i o leiaf 35% o lefelau 1995 erbyn 2019/20.

4.1.26 Mae'r targedau ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu a lleihau tirlenwi gwastraff masnachol a diwydiannol ar gyfer 2019/20 wedi'u gosod ar 67%, ac ar gyfer 2024/25 y targed yw 70%.

Draft

4.1.27 Targed gwastraff adeiladu a dymchwel ar gyfer 2019/20 yw lleiafswm o 90% yn ôl pwysau a lleihad o 75% yn swm y gwastraff adeiladu a dymchwel a gynhyrchir yng Nghymru a gafodd ei anfon i safle tirlenwi yn ôl gwaelodlin 2007. Targed diwygiedig Cyfarwyddeb y Fframwaith Gwastraff ar gyfer gwastraff adeiladu a dymchwel yw 70% erbyn 2020 felly mae targed Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn uwch.

4.1.28 Y lefelau lleiaf ar gyfer paratoi i ailddefnyddio ac ailgylchu/compostio (neu dreulio anaerobig) gwastraff a gesglir gan yr awdurdod lleol yw 64% ar gyfer 2019/20 a 70% erbyn 2024/25. Mae hwn yn uwch na tharged diwygiedig y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff sy'n datgan y bydd paratoi ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff, megis papur, metel, plastig a gwydr o gartrefi (a ffrydiau gwastraff sy'n debyg i wastraff o gartrefi) yn cynyddu i leiafswm o 50% yn ôl pwysau erbyn 2020.

4.1.29 Mae'r Strategaeth a amlinellir yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn cael ei weithredu trwy ddatblygu Cynlluniau Sector sy'n disgrifio rôl y sector, Llywodraeth Cymru ac eraill o ran cyflawni'r canlyniadau, y targedau a'r polisïau yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Y Cynlluniau Sector a gynhyrchwyd hyd yma yw:

- Cynllun Sector Casglu, Seilwaith a Marchnadoedd
- Cynllun Sector Gwastraff Trefol
- Cynllun Sector Bwyd, Gweithgynhyrchu, Gwasanaeth a Manwerthu
- Cynllun Sector Adeiladu a Dymchwel
- Cynllun Sector Masnachol a Diwydiannol

### Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 Gwastraff, Chwefror 2014 (TAN 21)

4.1.30 Mae TAN 21 yn rhoi cyngor ar sut y dylai'r system gynllunio ar gyfer defnydd tir gyfrannu tuag at reoli gwastraff cynaliadwy ac effeithlonrwydd adnoddau, gan adlewyrchu'r ysgogwyr rheoli gwastraff newydd ar lefel yr Undeb Ewropeaidd a Chymru.

Draft

4.1.31 Mae'n disgrifio'r dull at hwyluso cyflwyno rhwydwaith integredig a digonol o gyfleusterau ar gyfer adfer gwastraff trefol cymysg sy'n cyfrannu at fframwaith cynllunio defnydd tir cynaliadwy ar gyfer rheoli gwastraff yng Nghrymu. Mae'n amlinellu'r hyn a ddisgwylir gan awdurdodau cynllunio lleol pan fyddant yn paratoi eu cynlluniau datblygu, gan gynnwys gofyniad i nodi lleoliadau neu fathau o leoliadau addas a allai fod yn dderbyniol ar gyfer cyfleusterau gwastraff er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau iawn yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Mae hefyd yn amlinellu egwyddorion diogelu iechyd dynol a'r amgylchedd, agosrwydd (safle priodol agosaf) a hunanddigonolrwydd yn ogystal ag ailorfodi'r egwyddor o hierarchaeth wastraff.

4.1.32 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y bydd cyflawni'r nodau a nodir yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn gofyn am gydweithredu rhanbarthol. Felly mae trefniadau monitro wedi cael eu sefydlu ar gyfer Cymru (Gogledd, De Ddwyrain a De Orllewin Cymru). Fel y nodir uchod, mae Ceredigion wedi'i chynnwys o fewn rhanbarth De Orllewin Cymru. Mae gan bob rhanbarth y dasg o gynhyrchu Adroddiad Monitro Gwastraff yn flynyddol a fydd yn darparu data wedi'i ddiweddaru ar lefel rhanbarth ac yn llywio'r gofynion capasiti trin a'r gofod gwagle tirlenwi.

4.1.33 Mae datblygiadau mewn technoleg a chyflwyno deddfwriaeth, polisïau ac ymarferion newydd yn golygu bod nifer o gyfleusterau mewnol adeiladau modern i'w gweld yn debyg i unrhyw adeilad diwydiannol arall yn allanol, ac yn fewnol maent yn cynnwys prosesau diwydiannol neu gynhyrchu ynni nad ydynt efallai yn wahanol i unrhyw weithgareddau diwydiannol modern eraill o ran eu gweithrediad neu eu heffaith. Am y rheswm hwn, mae nifer o safleoedd cyflogaeth cyffredinol ac ardaloedd diwydiannol mawr yn debygol o fod yn lleoliadau addas ar gyfer cyfleusterau gwastraff, ond bydd hyn yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau lleol, gan gynnwys natur y defnyddwyr presennol a'r strategaeth a fabwysiadir ar gyfer safleoedd cyflogaeth arbennig.

4.1.34 Os oes angen, gall polisïau seiliedig ar feini prawf gael eu defnyddio i nodi pa fathau o gyfleusterau all fod yn dderbyniol fel rhan o ddyraniad penodol neu fel rhan o nodi pa safleoedd cyflogaeth all fod yn addas ar gyfer

Draft

defnyddiau gwastraff. Disgwylir i gyfleusterau ar gyfer ailgylchu ac ail-weithgynhyrchu gael eu darparu ar eu cyfer yn briodol ar nifer o safleoedd cyflogaeth cyffredinol, ar yr amod bod mynediad a chludiant addas ar gael. Fodd bynnag gall fod rhesymau safle penodol dros eu lleoli mewn mannau eraill. Dylai'r defnydd o safleoedd gan ddefnyddwyr rheoli gwastraff gael ei fonitro fel rhan o'r gwaith monitro blynyddol o gynlluniau datblygu lleol, a bydd yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol ar dueddiadau a gweithgareddau yn yr ardal.

4.1.35 Mae polisi LU31 y CDLl yn adlewyrchu'r cyfarwyddyd yn TAN 21 a chynigir dwyn y polisi ymlaen i CDLl2 gyda mân newidiadau yn unig.

## Rhanbarth De Orllewin Cymru – Adroddiad Monitro Cynllun Gwastraff 2018

### Gwastraff Gweddilliol

4.1.36 I gychwyn, cafodd awdurdodau lleol yng Nghymru eu rhannu'n hybiau rhanbarthol lle y byddent yn cydweithio mewn grwpiau i gaffael triniaeth gwastraff gweddilliol. Cafodd Ceredigion ei grwpio gyda Phowys yn Hyb Canol Cymru ar gyfer trin gwastraff gweddilliol.

4.1.37 Opsiwn a ffefrir Llywodraeth Cymru ar gyfer trin gwastraff gweddilliol yw troi gwastraff yn ynni gyda thechnoleg gwres a phŵer cyfunedig. Dyma'r opsiwn sydd â'r potensial mwyaf o gael effaith gadarnhaol ar newid hinsawdd ym marn y Llywodraeth, yn well na thechnolegau trin gwastraff gweddilliol eraill. Gall troi gwastraff yn ynni gyda thechnoleg gwres a phŵer cyfunedig helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd trwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.

4.1.38 Nod yr hybiau oedd cael yr awdurdodau cyfansoddol i gydweithio er mwyn canfod yr ateb mwyaf cynaliadwy, cost-effeithiol ac ymarferol ar gyfer trin gwastraff gweddilliol.

4.1.39 Fodd bynnag, mewn gwirionedd, yr hyn sydd wedi digwydd yw bod rhai awdurdodau o fewn rhanbarth De Orllewin Cymru wedi penderfynu llunio contractau gwastraff gweddilliol y tu allan i raglen hyb gwastraff gweddilliol

Draft

Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae Ceredigion yn anfon ei wastraff gweddilliol i LAS yn Llanbedr Pont Steffan hyd at 2022 tra y ceisir ateb hirdymor ar y cyd ag awdurdodau eraill yn Ne Orllewin a Chanol Cymru.

4.1.40 Byddai'r ateb hirdymor hwnnw yn annhebygol iawn o awgrymu y caiff cyfleuster troi gwastraff yn unig ar raddfa ranbarthol ei lleoli yng Ngheredigion yn wyneb y pellter oddi wrth y ffynonellau mwyaf o ddefnyddiau crai ac economeg y cyfleuster troi gwastraff yn ynni. Yn ogystal, mae'n bosib y bydd hyfywedd masnachol parhaus y ffatri Viridor yng Nghaerdydd yn dibynnu ar ddefnyddiau crai o fannau pellach I ffwrdd wrth i faint y gwastraff gweddilliol sydd ar gael leihau, gan gynnwys defnyddiau crai o Dde Orllewin Cymru. Felly mae'r achos economaidd dros greu mwy o gapasiti troi gwastraff yn ynni o fewn y rhanbarth yn wan ar y gorau.

**Gwastraff Bwyd**

4.1.41 Mae'r hyb caffael ar gyfer gwastraff bwyd yng Nghanol Cymru yr un fath ag ar gyfer gwastraff gweddilliol (Ceredigion a Phowys).

4.1.42 Opsiwn a ffefrir Llywodraeth Cymru ar gyfer trin gwastraff bwyd yw treulio anaerobig. Mae'n ystyried bod mwy o botensial gan y dechnoleg i gael effaith gadarnhaol ar newid hinsawdd na thechnolegau trin gwastraff bwyd eraill. Gall treulio anaerobig helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd mewn modd cadarnhaol trwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.

4.1.43 Mae gan Hyb Canol Cymru gontractau yn eu lle i ddelio â'r gwastraff bwyd a gynhyrchir o fewn y rhanbarth. Mae'r gwastraff bwyd yn cael ei gludo i'r cyfleuster treulio anaerobig Agrivert ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd â'r capasiti i weithredu fel cyfleuster ar raddfa ranbarthol.

4.1.44 Bu diddordeb hanesyddol mewn safleoedd treulio anaerobig ar raddfa fach yng Ngheredigion. Roedd hyn wedi'i gysylltu â dulliau cymorth ariannol megis y Tariffau Cyflenwi Trydan gan mai un o gynhyrchion treulio anaerobig yw ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, mae Tariffau Cyflenwi Trydan wedi dod i ben felly nid yw safleoedd treulio anaerobig pellach ar raddfa fach yn

Draft

debygol iawn yn y dyfodol gan fod yr achos economaidd wedi cael ei danseilio.

**Tirlenwi**

4.1.45 Mae Adroddiad Monitro Gwastraff De Orllewin Cymru ar gyfer 2018 yn datgan bod gwagle mewn safleoedd tirlenwi nad ydynt yn beryglus ar draws y rhanbarth yn cyfrif am 11.5 mlynedd ac felly yn llawer uwch na'r trothwy o 7 mlynedd a nodir yn TAN 21. Felly nid oes gofyniad ar gyfer gwagle tirlenwi ychwanegol yn Rhanbarth De Orllewin Cymru ar hyn o bryd. Mae'r lleihad mewn mewnbynnau gwastraff i safleoedd tirlenwi flwyddyn ar ôl blwyddyn yn golygu bod gwagleoedd yn cael eu defnyddio ar gyfradd arafach ac felly'n ymestyn yn barhaus nifer y blynyddoedd o wagleoedd.

4.1.46 Ceir pryderon ynghylch hyfywedd masnachol parhaus yr holl safleoedd tirlenwi gwastraff tŷ presennol gan eu bod yn cystadlu am fewnbynnau llai a llai bob blwyddyn. Mae oes gyfyngedig gan Bwllfawatkin yng Nghastell-nedd Port Talbot a hefyd Tir John yn Abertawe. Ar hyn o bryd mae Nant-y-caws y tu allan i Gaerfyrddin yn segur, a'r unig safle arall yw Withyhedge ger Hwlffordd. Yn hanesyddol, mae gwastraff o Geredigion wedi cael ei dirlenwi ym Mryn Posteg, Llanidloes.

4.1.47 Os yw'r gwagle yn lleihau i 7 mlynedd, mae TAN 21 yn datgan mai dyma pryd y bydd angen i'r farchnad gynnig ateb. Fodd bynnag, hyd yn oed os oes angen pendant am wagleoedd tirlenwi nad ydynt yn beryglus ychwanegol yn y dyfodol, nid yw safle ar raddfa ranbarthol yn debygol o gael ei lleoli yng Ngheredigion ar sail yr egwyddor agosrwydd a'r lefel isel berthynol o wastraff sy'n codi.

4.1.48 Mae safleoedd tirlenwi ar waelod yr hierarchaeth wastraff ac os yw'r Strategaeth Wastraff Genedlaethol yn mynd i lwyddo byddant yn chwarae llai o rôl yn y sector rheoli gwastraff. Hyd yn oed ar sail y lefelau isel presennol o wastraff gweddilliol a gynhyrchir yng Ngheredigion, byddai hyfywedd unrhyw safleoedd tirlenwi newydd yn amheus. Disgwylir i lefelau'r gwastraff y mae angen eu gwaredu'n derfynol mewn safle tirlenwi ostwng ymhellach yn y dyfodol, felly nid yw unrhyw safleoedd tirlenwi newydd yng



Draft

Ngheredigion yn debygol o fod yn hyfyw. Mae adeiladu cell tirlenwi yn ddrud iawn a rhaid ystyried arbedion maint. Ni allai'r awdurdod lleol gyfiawnhau'r gost o greu safle tirlenwi yng Ngheredigion, ac mae'n annhebygol iawn y byddai'r sector preifat yn ystyried cyllido tirlenwi yng Ngheredigion (heblaw efallai ar gyfer gwastraff anweithredol) yn wyneb y meintiau isel (sy'n lleihau) o wastraff sy'n debygol o fod ar gael i'w llenwi.

4.1.49 Yn ogystal â'r achos economaidd yn erbyn cael mwy o safleoedd tirlenwi pellach yng Ngheredigion, ceir achos amgylcheddol hefyd yn eu herbyn, oherwydd byddai angen bwydo unrhyw safle tirlenwi yng Ngheredigion er mwyn ei wneud yn hyfyw. Byddai hyn yn tueddu i yrru rheoli gwastraff i lawr yr hierarchaeth wastraff tuag at dirlenwi sy'n groes i bolisi cenedlaethol, ond byddai absenoldeb safle o'r fath yn helpu i yrru gwastraff ymhellach i fyny'r hierarchaeth wastraff yn unol â pholisi cenedlaethol. Ar y sail hon, mae'n gwneud synnwyr amgylcheddol i beidio ag agor unrhyw safleoedd tirlenwi newydd yng Ngheredigion.

**Gwastraff Diwydiannol a Masnachol**

4.1.50 O ran cyrraedd targedau cenedlaethol, mae'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff yn dangos, o ran ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff diwydiannol a masnachol, bod rhanbarth De Orllewin Cymru eisoes yn cyrraedd targed 2015/16 yn 2012. Fodd bynnag, tirlenwi oedd yr ail lwybr rheoli gwastraff uchaf o hyd (yn cyfrif am 21% o'r gwastraff), ac o ganlyniad roedd targed 2019/20 o uchafswm o 10% o wastraff yn cael ei dirlenwi yn parhau'n bell o gael ei gyflawni. Yn anffodus, ni chafwyd unrhyw ddiweddariad mewn perthynas â gwastraff diwydiannol a masnachol ers 2012, ac yn absenoldeb data mwy diweddar ni fydd modd pennu a yw'r ddau darged ar wahân 2019/20 ar gyfer lleihau tirlenwi a chynyddu ailgylchu a nodwyd isod yn cael eu cyrraedd.

**Gwastraff Adeiladu a Dymchwel**

4.1.51 Yn yr un modd â gwastraff diwydiannol a masnachol, ni chedwir unrhyw ffynhonnell barhaus o ddata blynyddol ar gyfer gwastraff diwydiannol a masnachol. Yn ogystal, mae'r adroddiad diweddaraf ar wastraff adeiladu a dymchwel (2012) yn cynghori yn erbyn ei gymharu ag astudiaethau

Draft

cynharach, ac felly ni fu modd sefydlu'n ddibynadwy a yw maint y gwastraff adeiladu a dymchwel a dirlenwir yn agos at gyrraedd targed Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Fodd bynnag, o ran targed Tuag at Ddyfodol Diwastraff ar gyfer paratoi ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer arall (lleiafswm o 70%, erbyn 2015/16), mae canlyniadau 2012 (67%) yn dangos y disgwylir i ranbarth De Orllewin Cymru gyrraedd y targed.

**Gwastraff Peryglus**

4.1.52 Daeth Cynllun CIMS i'r casgliad nad oes llawer o gymhelliad yn y farchnad i ddatblygu safleoedd tirlenwi gwastraff peryglus ychwanegol yn rhanbarth De Orllewin Cymru nac ar lefel Cymru gyfan. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y sefyllfa hon wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf.

Drafft

# 5. Y Cyd-destun Lleol

## Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion – 2017-2022

5.1.1 Mae'r Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer Ceredigion yn seiliedig ar bedair blaenoriaeth gorfforaethol:

BG1 – hybu'r economi

BG2 – buddsoddi yn nyfodol y bobl

BG3 – galluogi cydnerthedd unigolion a theuluoedd

BG4 – hybu cydnerthedd amgylcheddol a chymunedol

5.1.2 O dan BG4 mae'r Cyngor am:

- leihau maint y gwastraff a gynhyrchir
- cynnal ei safle fel yr awdurdod sydd ag un o'r cyfraddau ailgylchu gorau yng Nghymru
- bod yn awdurdod sydd ag un o'r cyfraddau isaf o wastraff a anfonir i safle tirlenwi

## Strategaeth Rheoli Gwastraff Ceredigion 2014-18

5.1.3 Mae'r strategaeth yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd ond mae'n cyfateb â'r Strategaeth Gorfforaethol ac yn ceisio lleihau maint y gwastraff a gynhyrchir ac ailddefnyddio, ailgylchu, compostio a thrin y gwastraff a gynhyrchir mewn ffordd gynaliadwy.

## Rôl Cyngor Sir Ceredigion fel yr Awdurdod Gwastraff Trefol

5.1.4 Yn ei rôl fel yr Awdurdod Gwastraff Trefol, mae Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am gasglu'r holl wastraff tŷ a gwastraff arall sydd wedi'i gynnwys o fewn y diffiniad o wastraff a gesglir gan yr awdurdod lleol, a chaiff targedau eu gosod ar gyfer ailgylchu a gwyro'r elfen fioddiraddiadwy o safleoedd tirlenwi. Caiff yr holl ffrydiau gwastraff eraill eu rheoli gan y sector preifat.

## Cyngor Sir Ceredigion fel yr Awdurdod Cynllunio Gwastraff

5.1.5 Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ei rôl fel yr Awdurdod Cynllunio Gwastraff yn gyfrifol am reolaeth cynllunio defnydd tir dros reoli gwastraff ar gyfer ei holl ffrydiau gwastraff, nid yn unig gwastraff a gesglir gan yr awdurdod lleol ac, yn ogystal, mae'n gyfrifol am ystyried materion gwastraff ym mhob datblygiad arall. Mewn partneriaeth â'r awdurdodau eraill mae'r awdurdod

Draft

lleol hefyd yn gyfrifol am hwyluso darparu rhwydwaith cynhwysfawr ac integredig o gyfleusterau gwastraff ar draws Cymru er mwyn bodloni rhwymedigaethau Ewropeaidd a chenedlaethol.

### Perfformiad rheoli gwastraff Ceredigion hyd yma

5.1.6 Mae Ceredigion wedi bod ymysg yr awdurdodau lleol sy'n perfformio orau yn gyson yng Nghymru o ran ailgylchu/compostio, ac mae wedi bod o fewn ei lwfans tirlenwi yn gyson. Fodd bynnag, bydd aros o fewn y lwfans yn fwyfwy heriol wrth i'r lwfans fod yn fwy cyfyngedig yn raddol.

**Tabl 1: Perfformiad Ceredigion yn erbyn y lwfansau tirlenwi rhwng 2011/12 a 2016/17**

| Blwyddyn | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchafswm Gwastraff Bioddiraddiadwy i safle tirlenwi (tunelli) | 13,616 | 11,635 | 11,140 | 10,645 | 10,150 | 9,655 |
| Gwastraff Bioddiraddiadwy gwirioneddol i safle tirlenwi (tunelli) | 5,532 | 5,831 | 6,456 | 2,919 | 3,208 | 4,326 |

[Ffynhonnell: Rhanbarth De Orllewin Cymru – Adroddiad Monitro Blynyddol Gwastraff 2018]

**Tabl 2: Targedau wedi'u nodi yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned**

| TARGED | TARGEDAU AR GYFER POB BLWYDDYN DARGED | |
|---|---|---|
| | 19/20 | 24/25 |
| Lleiafswm lefelau paratoi ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu/compostio (neu dreulio anaerobig) ar gyfer gwastraff trefol | 64% | 70% |
| Lleiafswm cyfran paratoi ar gyfer ailddefnyddio / ailgylchu / compostio sy'n rhaid dod o wahanu gwastraff | 80% | 80% |

Draft

| | | |
|---|---|---|
| Uchafswm lefel tirlenwi | 10% | 5% |
| Uchafswm lefel troi gwastraff yn ynni | 36% | 30% |

**Tabl 3: Y bwlch perfformiad y mae'n rhaid i Geredigion ei bontio erbyn 2025 gan ddefnyddio'r targedau a nodwyd yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned**

| Ysgogydd Strategol | Targed dangosol Llywodraeth Cynulliad Cymru | Sefyllfa bresennol (2016/17) |
|---|---|---|
| Lleiafswm lefelau ailgylchu / compostio erbyn 2025 | 70% | 70.1% |
| Uchafswm lefel yr ynni o wastraff | 30% | 0% |
| Uchafswm lefel tirlenwi erbyn 2025 | 5% | 12.25% |

[Ffynhonnell: Rhanbarth De Orllewin Cymru – Adroddiad Monitro Blynyddol Gwastraff 2018]

Draft

## Wynebu'r Her

5.1.7 Mae data'r awdurdod lleol ar gyfer 2016/17 yn dangos y bydd eisoes yn gwneud yn well na'r targed cyfunedig o 70% ar gyfer ailgylchu a chompostio a osodwyd mewn deddfwriaeth ar gyfer 2024/25. Fodd bynnag, mae angen gwneud cynnydd pellach o ran mynd i'r afael â gwastraff bioddiraddiadwy er mwyn cyrraedd y targedau gwyro o safleoedd tirlenwi a lleihau gwastraff tirlenwi. Bydd y contract gwastraff bwyd gydag Agrivert yn caniatáu i'r awdurdod lleol wneud cynnydd arwyddocaol i'r cyfeiriad hwnnw.

5.1.8 Mae Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion 2017-2022 yn cyfateb â'r Strategaeth Wastraff Genedlaethol 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'. Mae'n cydnabod y bydd angen gwneud cynnydd pellach ar ailgylchu.

5.1.9 Mae Partneriaeth Gwastraff Canolbarth Cymru (Ceredigion a Phowys) wedi bod yn ystyried opsiynau eraill yn lle tirlenwi ar gyfer cyfleusterau trin gwastraff gweddilliol i wasanaethu hyb Canolbarth Cymru. Roedd gwaith cynnar y consortiwm wedi canolbwyntio ar ymchwil i addasrwydd safleoedd ar raddfa fach ar gyfer delio â gwastraff gweddilliol. Daeth gwaith

ymgynghorwyr Atkins ar ran y bartneriaeth i'r casgliad na fydd unrhyw fath o safle llosgi gwastraff sy'n gysylltiedig â chynhyrchu ynni yn hyfyw o bosib ar gyfer Canolbarth Cymru yn wyneb y meintiau gweddol isel o wastraff a gynhyrchir dros arwynebedd tir mor eang.

5.1.10 Felly, yn wyneb yr ansicrwydd ynghylch hyfywedd ateb Canolbarth Cymru ar gyfer trin gwastraff gweddilliol, mae Ceredigion a Phowys yn ystyried y cyfleoedd ar gyfer trin gwastraff gweddilliol gyda chonsortiwm cyfagos eraill.

# 6. Polisïau CDLl2

6.1.1 Roedd y CDLl wedi nodi safle ar gyfer cyfleuster gwastraff rhanbarthol yng Nglan-yr-afon, Aberystwyth. Nid oes angen y safle mwyach i wasanaethu fel safle posibl ar gyfer lleoli cyfleuster gwastraff rhanbarthol, felly ni chaiff y safle a neilltuwyd ei ddwyn ymlaen i CDLl2.

6.1.2 Mae Polisi LU31 y CDLl yn parhau'n gyson â pholisi cenedlaethol ac felly i'w ddwyn ymlaen gyda mân newidiadau yn unig.

**Polisi LU31:**
**Cyfleusterau Adfer Adnoddau a Rheoli Gwastraff**

Bydd y CDLl yn sicrhau bod tir digonol ar gael mewn lleoliadau priodol i fodloni cynlluniau a strategaethau gwastraff rhanbarthol a chenedlaethol trwy:

1. diogelu a chadw safleoedd rheoli gwastraff penodol sy'n bodoli ar gyfer cyfleusterau adfer adnoddau a rheoli gwastraff yn unig, a symud hawliau datblygiadau a ganiateir ar gyfer newid defnydd ar unrhyw gyfleusterau adfer adnoddau a rheoli gwastraff er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau yn cael eu cadw at ddefnyddiau adfer adnoddau a rheoli gwastraff;

2. caniatáu cyfleusterau adfer adnoddau a rheoli gwastraff yn yr adeilad a leolir ar safleoedd cyflogaeth 'diwydiannol cyffredinol dosbarth defnydd tir B2, a lle y bo'n briodol ochr yn ochr â defnyddiau cyflogaeth eraill;

Draft

3. caniatáu storio ac ailgylchu gwastraff adeiladu, dymchwel a chloddio o fewn safleoedd mwynau gweithredol, hen safleoedd chwareli ac o fewn neu yn union gyfagos â chyfadeiladau fferm;

4. caniatáu compostio ac aeddfedu nwyddau treuliedig sy'n codi o gyfleusterau treulio anaerobig ar dir amaethyddol;

5. caniatáu cydleoli cyfleusterau yn neu wrth ochr cynhyrchwyr gwastraff er mwyn cadw gwastraff i'r lleiaf posibl a rheoli'r gwastraff a gynhyrchir ganddynt yn y ffynhonnell, ac os yw'n ymarferol, adfer ynni o'r gwastraff gweddilliol.

6.1.3 Bydd Polisi LU32 y CDLl yn cael ei ddiwygio er mwyn iddo gysylltu ag egwyddorion economi gylchol fel y nodir mewn polisi cenedlaethol.

**Polisi LU32:**
**Datblygu a Lleihau Effaith Gwastraff**

Bydd rhaid i gynigion datblygu ddangos, trwy gyflwyno cynllun rheoli adnoddau naturiol, sut mae cynhyrchu gwastraff wedi cael ei gadw i'r lleiaf posibl a sut y rheolir unrhyw wastraff a gynhyrchir er mwyn gallu defnyddio adnoddau cyhyd â phosibl trwy'r canlynol:

1. cynllun a dyluniad y datblygiad;

2. unrhyw gam dymchwel ac adeiladu;

3. parchu unrhyw gyfleoedd ar gyfer defnyddio gwastraff i'w ailddefnyddio a'i ailgylchu;

4. parchu unrhyw gyfleoedd ar gyfer defnyddio gwastraff gweddilliol fel ffynhonnell tanwydd;

5. mewn perthynas ag unrhyw gyfleoedd i ddal a rhannu unrhyw wres a phŵer dros ben gyda defnyddwyr ynni cyfagos.

Draft

6.1.4 Yn seiliedig ar y materion y tynnwyd sylw atynt trwy'r papur, daethpwyd i'r casgliad nad oes angen unrhyw bolisïau gwastraff ychwanegol.

Drafft